**European and External Affairs Committee**

**Date:** 30 January 2003
**Time:** 14:00
**Venue:** Committee Rooms 3 and 4, National Assembly for Wales

## CYFARFOD LLAWN CORFF RHYNG-SENEDDOL PRYDAIN IWERDDON: MANCEINION, 24-26 TACHWEDD 2002

### Y Cefndir

1. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymryd rhan weithgar yn nhrafodion Corff Seneddol Prydain Iwerddon a chaiff ei gynrychioli gan ddirprwyaeth drawsbleidiol o'r pump Aelod Llawn a'r pedwar Aelod Cyswllt. Yn yr achos hwn, fel yn y Cyfarfod Llawn blaenorol yn Nulyn, roedd pob un o'r pump Aelod Llawn yn bresennol. Sef: y Dirprwy Lywydd, Eleanor Burnham AC, John Griffiths AC, Dai Lloyd AC a David Melding AC. Cynhaliwyd y cyfarfod llawn dros gyfnod o ddau ddiwrnod a chafwyd trafodaethau ar ddatblygiadau gwleidyddol diweddar, cysylltiadau â'r Cyngor Nordig, cynnig Iwerddon a'r Alban ar y cyd i gynnal Pencampwriaeth Bêl-droed Ewropeaidd 2008, a gorsaf bwer niwclear Sellafield. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r digwyddiadau a phwyntiau allweddol sydd o ddiddordeb i'r Cynulliad.

### 25AIN CYFARFOD LLAWN

2. **Datblygiadau Gwleidyddol Diweddar.** Cynigiodd y Pwyllgor Llywio: Bod y Corff yn ailddatgan ei fod yn cefnogi Cytundeb Dydd Gwener y Groglith; yn drist bod y sefydliadau datganoledig yng Ngogledd Iwerddon wedi cael eu hatal rhag gweithredu; yn croesawu penderfyniad y ddwy Lywodraeth i fwrw ymlaen â phob agwedd ar y cytundeb; yn galw ar bob plaid wleidyddol i ymdrechu'n galetach i adfer y sefydliadau hyn a fu o fantais i holl bobl yr ynysoedd hyn; ac yn pwyso ar bob carfan berthnasol i barhau â'u hymdrechion i sicrhau bod Sefydliadau Gogledd Iwerddon yn ailgychwyn gweithio yn fuan'

3. Wrth gyflwyno'r Cynnig, pwysleisiodd Jim O'Keeffe TD bod yn rhaid i'r diwygio barhau yng Ngogledd Iwerddon. Dywedodd fod "y datblygiadau yng Ngogledd Iwerddon wedi bod yn symud fesul 'dau gam ymlaen, un cam yn ôl'. Mae Gogledd Iwerddon mewn sefyllfa o fod 'gam yn ôl' ar hyn o bryd, ac mae'n ddyletswydd arnom i ymdrechu i fod 'dau gam ymlaen' cyn gynted ag sy'n bosibl." Roedd cyfraniadau eraill yn pwysleisio:

- y dylid diddymu pob sefydliad seneddol
- y dylid rhoi diwedd ar ymosodiadau cosb
- y dylai Sinn Féin gefnogi datblygiad Gwasanaeth yr Heddlu yng Ngogledd Iwerddon
- bod morâl y gwasanaeth sifil yng Ngogledd Iwerddon yn isel iawn a bod yn rhaid cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau a ddaw yn sgil dirywiad y system lywodraethol
- y dylid cynnal etholiadau Gogledd Iwerddon ar y dyddiad y cytunwyd arno
- y dylid cael mwy o gysylltiad rhwng Corff Rhyng-Seneddol Prydain Iwerddon (BIIPB) a Chyngor Prydain Iwerddon.

4. Mynegodd y Seneddwraig O'Rourke y tristwch y mae llawer yn ei deimlo bod Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi cael ei atal rhag gweithredu. Meddai: 'Roedd ganddynt (pobl Gogledd Iwerddon) sefydliad a pherson cyfarwydd y gallant gyfeirio eu syniadau a'u pryderon atynt - ac roedd hynny'n bwysig iddynt.' Awgrymodd yr Arglwydd Dubs y dylid caniatáu i aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon fynychu'r BIIPB fel Arsylwyr.

5. Wrth grynhoi'r ddadl, dyfynnodd Michael Mates AS o'r Pwyllgor Llywio, allan o gyfraniad John Hume AS (a oedd hefyd yn bresennol) - 'y cyhoedd ddylai roi arweiniad, ac nid problemau'r pleidiau gwleidyddol'. Cymeradwywyd y Cynnig yn unfrydol.

6. **Cynnig ar y cyd rhwng Iwerddon a'r Alban i gynnal Pencampwriaeth Bêl-droed Ewrop 2008.** Cynigiodd y Pwyllgor Llywio bod y Corff yn 'nodi ymateb llywodraethau a gweithrediaethau i'r drafodaeth ar gynnig yr Alban ac Iwerddon ar y cyd i gynnal Pencampwriaeth (Cymdeithas Bêl-droed) Ewrop 2008'.

7. Ni wnaeth fawr ddim o bwys i'r Cynulliad godi yn y drafodaeth hon. Dim ond Lembit Öpik AS oedd yn cynrychioli Cymru yn y drafodaeth. Soniodd am lwyddiannau diweddar tîm pêl-droed Cymru ac awgrymodd y dylent ystyried Stadiwm y Mileniwm pe byddai angen unrhyw leoliadau ychwanegol arnynt.

8. **Cysylltiadau â'r Cyngor Nordig.** Cyflwynodd y Pwyllgor Llywio Gynnig Senedd yr Alban ar y Cyngor Nordig, 'mae'r Corff yn llongyfarch y Cyngor Nordig ar ei benblwydd yn 50 oed; yn nodi bod pobloedd, rhanbarthau a chenhedloedd yr ardal Nordig wedi manteisio oherwydd y Cyngor yn nhermau cydweithredu cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd; ac yn credu y dylid datblygu'r cysylltiad rhwng y Corff a'r Cyngor Nordig'.

9. Murray Tosh ASA wnaeth agor y drafodaeth ar ran y Pwyllgor Llywio

drwy longyfarch y Cyngor Nordig ar 50 o flynyddoedd llwyddiannus.

Amlinellodd yr hyn yr oedd y Cyngor wedi'i gyflawni'n wleidyddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol a soniodd wrth y Corff am y cysylltiad a fu rhwng Pwyllgor Llywio'r BIIPB â'r Cyngor Nordig hyd yn

hyn. Cynigiodd bod y Corff yn parhau â'i gysylltiad â'r Cyngor ac awgrymodd y gallai'r Cyngor Nordig fod yn esiampl gref i'r BIIPB. Pwysleisiodd fod yna lawer y gallai pwyllgorau'r ddau gorff ei wneud ar y cyd, gan gynnwys trafod a chyfnewid gwybodaeth am; ddiwylliant, pysgodfeydd a datblygu cynaliadwy.

10. Eglurodd Cadeirydd Pwyllgor Amgylchedd y Cyngor Nordig bod y Corff a'r Cyngor Nordig yn 'chwaer' sefydliadau. Aeth yn ei flaen i bwysleisio manteision y cysylltiadau sydd wedi datblygu â Senedd yr Alban ac eglurodd pa mor werthfawr yr oeddent i'r parth Nordig. Soniodd hefyd mai un o'r prif bwyntiau trafod yn y Cyngor Nordig ar hyn o bryd oedd rôl y rhanbarthau o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn dilyn ehangu.

11. Cyfrannodd John Griffiths AC at y drafodaeth gan roi cefnogaeth gref i

Gynnig Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dywedodd fod:

- Brian Gibbons AC wedi cynrychioli'r BIIPB yn ddiweddar yng Nghyfarfod Llawn y Cyngor Nordig
- Sellafield yn berthnasol ac yn peri pryder i bobl yng Nghymru ac yn y gwledydd Nordig
- cysylltiadau cryf rhwng pwyllgorau'r Cynulliad ac aelod wledydd y Cyngor Nordig
- seneddau'r Cynulliad a'r Cyngor Nordig yn rhannu'r un gwerthoedd, yn arbennig o ran pa mor agored yw'r broses ddemocrataidd a'i hygyrchedd; yr ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy; a'r gyfran uchel o gynrychiolwyr benywaidd sydd ar y cyrff deddfu
- tebygrwydd daearyddol, yn enwedig gan fod Cymru a gwledydd y Cyngor Nordig yn wedi'u lleoli ar arfordir gorllewinol Ewrop a'r sialensau a fydd yn eu hwynebu yn sgil ehangu.

12. Kevin McNamara AS wnaeth y pwynt olaf ar ran y Pwyllgor Llywio gan roi croeso cynnes i'r Cynnig. Cafodd y Cynnig ei gymeradwyo'n unfrydol.

13. **Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon.** Siaradodd y Gwir Anrh. Paul Murphey AS, Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon, ag aelodau'r Corff ac atebodd eu cwestiynau. Rhoddodd adroddiad ar y sefyllfa yng Ngogledd Iwerddon a gwaharddiad Cynulliad Gogledd Iwerddon rhag gweithredu. O ystyried y manteision a ddaeth i Ogledd Iwerddon yn sgil y 'Broses Heddwch' yn nhermau diwygio economaidd a chyfreithiol, roedd yn argyhoeddedig y gellid canfod ateb a fydd er budd pawb. Roedd yn pwysleisio y dylid parhau â'r trafodaethau ond roedd yr un mor bendant na ddylai'r bygythiad seneddol fodoli. Eglurodd mai dyma'r ail dro iddo annerch y BIIPB a bod yr holl gydweithredu rhwng pleidiau a rhwng gwledydd wedi gwneud argraff arno.

14. **Sellafield.** Cafwyd trafodaeth ar Adroddiad Sellafield a gyflwynwyd gan Bwyllgor D y Corff. Dywedodd Kevin McNamara AS, Cadeirydd y Pwyllgor, fod yr Adroddiad yn dangos bod trin gwastraff niwclear yn Sellafield yn broblem, ac y gallai'r gwaith distyllu beri problem o ran diogelwch. (Serch hynny roedd y sensitifrwydd amlwg yn ymwneud ag ymchwilio i'r mater hwn yn golygu nad oedd y

canfyddiadau'n rhai pendant).

Gan nad oedd y canfyddiadau'n bendant, cytunodd Pwyllgor D i sefydlu is-grwp sefydlog i fonitro Sellafield am ei fod yn parhau i beri pryder ym Mhrydain ac yn Iwerddon. Dyma rai o bigion y drafodaeth:

- Argymhellion y dylai Sefydliad Diogelu Ymbelydrol Iwerddon gael mynediad i Sellafield fel asiantaeth arsylwi, yn ogystal â Llywodraeth y DU a'r Awdurdod Ynni Atomig Rhyngwladol.
- Er bod llawer mwy o gyfnewid gwybodaeth yn digwydd rhwng Llywodraethau Iwerddon a'r DU ynghylch Sellafield nag a feddyliwyd yn wreiddiol, nid oedd digon o wybodaeth ar gael yn gyhoeddus.
- Roedd agwedd annelwig Llywodraeth y DU tuag at gontractau hir dymor â Thanwydd Niwclear Prydain (BNFL), strategaethau rheoli gwastraff, a'i ddiffyg ymdrech i weithredu cytundebau ar gyfer cludo gwastraff mewn llogau yn peri dryswch.

15. Cyfrannodd Eleanor Burnham AC at y ddadl drwy groesawu'r adroddiad a datgan buddiant fel llefarydd ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru ac fel Aelod rhanbarthol ar ran y Gogledd. Dywedodd bod ei hetholwyr 'yn poeni'n ofnadwy am effeithiau hir dymor Sellafield ar eu hiechyd yn gyffredinol, a'r farn gyffredinol fod y safle bellach yn cael ei ddefnyddio fel tomen ar gyfer gwastraff niwclear y byd'. Bydd Eleanor Burnham AC yn aelod o is-grwp sefydlog Pwyllgor D a sefydlwyd i sicrhau bod Sellafield yn parhau i gael ei fonitro.

16. Wrth gloi, dywedodd y Seneddwraig Mary O'Rouke na allai gredu safbwynt Llywodraeth y DU ar ddiogelwch yng ngorsaf Sellafield. Cynigiodd y dylid ystyried yr Adroddiad fel datganiad dros dro mewn proses fonitro barhaus. Cymeradwywyd yr 'Adroddiad Dros Dro' ag un gwrthwynebiad. Bydd y Corff yn anfon yr Adroddiad at Gyngor Prydain Iwerddon i'w ystyried.

17. **Papur Trafodaeth.** Cyflwynodd Andrew MacKinlay AS bapur trafodaeth i'r Corff i'w ystyried. Roedd yn teimlo fod angen cryfhau statws y Corff a chynigiodd amrywiaeth o gamau i godi ei werth a gwella'i effeithiolrwydd. Mae'r camau'n cynnwys:

- gofyn i'r Prif Weinidog annerch y Corff
- Gweinidogion i fod yn bresennol mewn trafodaethau perthnasol
- cynrychiolwyr o gyrff addas i gymryd rhan mewn trafodaethau perthnasol
- gwell cydlynu wrth gydweithio â Chyngor Prydain Iwerddon.

Cytunodd yr aelodau i ystyried a thrafod y cynigion yn y Pwyllgor Llywio nesaf ac yn y Cyfarfod Llawn nesaf.

**PWYLLGORAU**

**Pwyllgor Llywio**

18. Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn gyfrifol, yn lle Senedd yr Alban, am ddarparu Aelod i gynrychioli'r Cyrff Datganoledig o 01 Ionawr 2003 ymlaen, a hynny am gyfnod o flwyddyn. Dai Lloyd AC fydd yn ymgymryd â'r rôl hon. Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Llywio yn Llundain ar 13 Ionawr.

19. **Pwyllgor A (Materion yn ymwneud â Sofraniaeth):**

- Y sefyllfa wleidyddol yn gyffredinol yng Ngogledd Iwerddon
- Cyfiawnder Troseddol
- Monitro gwaith Cyngor Prydain Iwerddon.

20. **Pwyllgor B (Ewropeaidd):**

- Cysylltiadau â'r Cyngor Nordig.

21. **Pwyllgor C (Economaidd):**

- Byddant yn penderfynu ar bwnc i'w ystyried yn eu cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.

22. **Pwyllgor D (yr Amgylchedd a Chymdeithasol):**

- Strategaethau rheoli gwastraff
- Sefydlu is-grwp arbennig ar gyfer monitro Sellafield.

**Y CYFARFOD LLAWN NESAF**

23. Cynhelir y Cyfarfod Llawn nesaf yn Kilkenny ar 23-5 Mawrth 2003. Bydd y sesiwn yn cynnwys trafodaethau ar y materion canlynol:

- Datblygiadau Gwleidyddol Diweddar
- Adroddiad Blynyddol y Corff
- Adroddiad Pwyllgor A - Pwyntiau Cosbi/Troseddau Traffig
- Adroddiad Pwyllgor C - Twristiaeth
- Pysgodfeydd

**NODIADAU ERAILL**

- Brendan Smith TD fydd yn dilyn Michael O'Kennedy fel cyd-gadeirydd y BIIPB.
- Cymdeithas Gohebwyr Seneddol Prydain Iwerddon oedd gohebwyr swyddogol y BIIPB.

PJP Kellam
14 Ionawr 2002